Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

11 Rhagfyr 2018

Annwyl Kirsty,

Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2017 – 2018: Camau dilynol

Ar 6 Rhagfyr 2018, bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2017-18. Mae **trawsgrifiad llawn o'n trafodaethau** ar gael.

Cododd tri maes penodol y byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth amdanynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod ein trafodaethau:

1. **Safonau mewn ysgolion uwchradd**

   Safonau

   Mae adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi 2017-18 yn nodi y canfuwyd bod 48 y cant o'r 27 ysgol uwchradd a arolygwyd yn 2017-18 naill ai'n 'ddigonol ac angen gwella', neu'n 'anfoddhaol ac angen gwelliant brys'.

   Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn datgan nad yw mwyafrif y disgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau'n ddigon da nac yn gwneud digon o gynnydd yn tua hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd. Yn yr un modd, nid yw mwyafrif y disgyblion yn cyflawni yn unol â'u gallu ar ddiwedd addysg orfodol. Rydym yn bryderus iawn am y gwastraff potensial hwn.

   Ymyriadau

   Rydym hefyd yn pryderu ynghylch i ba raddau y mae ymyriadau'n cael eu gwneud yn effeithiol ac yn ddigon cynnar mewn ysgolion sy'n achosi'r pryder mwyaf. Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi wedi datgan:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

"Er gwaethaf mentrau amrywiol, gan gynnwys bandio a chategoreiddio, erys y ffaith nad yw'r ysgolion hyn yn cael eu nodi'n ddigon cynnar ac nid oes digon yn cael ei wneud i'w cynorthwyo i ddatblygu strategaethau cynaliadwy ar gyfer gwella."

Yn ein hadroddiad, *Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol*, fe wnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y consortia rhanbarthol yn darparu'r her a'r gefnogaeth angenrheidiol i'r ysgolion sy'n tanberfformio fwyaf, yn dilyn cau rhaglen Her Ysgolion Cymru. Fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro a gwerthuso hyn yn ofalus.

Dywedodd Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi wrth y Pwyllgor fod angen "gwneud rhywbeth ar frys" ynglŷn ag ysgolion, yn enwedig yn y sector uwchradd, sydd ar hyn o bryd yn methu â chodi'u hunain o'r categorïau ymyrraeth statudol. Nododd yr angen i nodi ysgolion yn gyflymach, sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth well, a "chysoni" eu cefnogaeth bresennol yn well. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor i edrych ar y maes hwn yn fanylach.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani:

Byddem yn croesawu:

- rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyfansoddiad, rhaglen, amserlenni a bwriadau arfaethedig y gweithgor, ac amlinelliad o unrhyw gamau eraill y bwriadwch eu cymryd i wella'r sefyllfa;
- ymateb wedi'i ddiweddaru, yn sgil adroddiad blynyddol diweddaraf Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, i'n hargymhelliad yn *Cyrraedd y nod?* y dylai Llywodraeth Cymru fonitro a gwerthuso'n ofalus y cymorth a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol i'r ysgolion sy'n tanberfformio fwyaf.

2. Adroddiad 'Arolygiaeth Dysgu'

Yn ei adroddiad, *Arolygiaeth Dysgu,* argymhellodd yr Athro Graham Donaldson seibiant o flwyddyn o arolygiadau ysgolion cylchol rheolaidd Estyn, fel rhan o symudiad tri cham i fodel hunan arfarnu. Argymhellodd yr Athro Donaldson y seibiant er mwyn:

- galluogi Estyn i ganolbwyntio adnoddau ar ddatblygu ei rôl o gefnogi gwelliant a pharatoi ar gyfer diwygiadau fel y cwricwlwm newydd;
- rhyddhau ysgolion o'r ymyrraeth bosibl a achosir gan arolygiadau, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar wella a newid (er y byddai ymyriadau mewn ysgolion

sydd angen 'gwelliant sylweddol' neu sydd mewn 'mesurau arbennig' yn parhau).

Yn ei dystiolaeth ar 6 Rhagfyr, dywedodd Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi y byddai 'manteision' i seibiant o'r fath ond mai mater i Lywodraeth Cymru oedd hyn gan y byddai angen newidiadau i ddeddfwriaeth a rheoliadau arolygu.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani:

Byddem yn croesawu cadarnhad o:

- pryd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu ymateb ffurfiol i *Arolygiaeth Dysgu*?
- a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymryd y camau angenrheidiol i gychwyn y seibiant o flwyddyn a argymhellir mewn arolygiadau cylchol rheolaidd ac, os felly, pryd?
- y sefyllfa ddiweddaraf o ran datblygu Fframwaith Asesu a Gwerthuso Llywodraeth Cymru newydd.

3. Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl

Rydym yn croesawu bwriad Estyn i ymgymryd â darn o waith thematig ar gymorth ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl mewn ysgolion yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn pryderu yr adroddwyd yn 2017-18 fod traean o ysgolion uwchradd yng Nghymru yn cael eu barnu naill ai'n 'anfoddhaol ac angen gwelliant brys' neu'n 'ddigonol ac angen gwella' o ran lles ac agweddau tuag at ddysgu.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani:

Byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod hyfforddiant mewn perthynas â lles emosiynol a lles meddyliol disgyblion yn rhan o addysg gychwynnol athrawon a chymorth parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd